COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 11eg o ORFFENNAF 2016 YN FESTRI MOREIA MEINCIAU AM 7.00.

Presennol: Alan Lewis (yn y gadair),Geraint Rosser,Ian Evans,Tyssul Evans,Heddwyn Jones,Linda Williams,Carrie Rees,Wendy Evans,Aled Williams,Geoff Hewitt a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Margaret Rees,Meic Bowen,Ellis Jenkins a Richard Thomas

Materion Personol

1474 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

1475 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 06/06/2016 fel rhai cywir.

1476 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1455 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. – Arhoswn am ddyddiad y Cyfarfod safle gyda'r Cyngor Sir a'r Heddlu i drafod y mater ymhellach

Tud 1. Cofnod Rhif 1455 - Arwyddion Ceffylau yng Ngharwe – Parhawn i aros am yr arwyddion.

Tud1. Cofnod 1455 - Ysgol y Gwynfryn - Derbyn cyfrifoldeb am Barc Gwynfryn - Penderfynwyd aros am amcan bris o'r gwaith angenrheidiol cyn trafod hwn ymhellach.

Tud 3. Cofnod 1455 - Heol i Fferm Tŷ Mawr, Carwe – Penderfynwyd gofyn am amcan bris oddiwrth Gwendraeth Tarmacadam am y gwaith angenrheidiol.

Tud 4. Cofnod 1452 – Dylai'r cofnod nodi mai dros wal Ysgol y Gwynfryn y mae'r sbwriel yn cael ei daflu.

1477 Cyflwyniad Shared Access

Cafwyd trafodaeth ar y mater uchod a phenderfynwyd derbyn gwahoddiad oddiwrth Shared Access i gyfarfod ar 27 neu 29 o'r mis hwn i drafod y mater ymhellach.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1478 Sioe Llandyfaelog – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100..

1479 Cylch Meithrin Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £400.

1480 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Parc Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

1481 Ambiwlans Sant Ioan, Sir Gaerfyrddin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1482 Bethel Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

1483 Urdd Gobaith Cymru – Rhanbarth Gorllewin a Dwyrain Myrddin - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1484 Llyfrau Llafar – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Ian Evans, Is-gadeirydd yn y gadair

Cynghorwr Alan Lewis yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1485 South Wales Multiple Sclerosis Therapy Centre – Hyperbaric Oxygen Therapy – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Alan yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwyr Alan Lewis a Linda Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1486 Moreia Meinciau – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

Alan a Linda yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Alan Lewis, Cadeirydd yn y gadair

1487 Shelter Cymru – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1488 Clwb Rygbi Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1489 HMRC - Ad-daliad o DAW - £6644.16.

1490 Cyngor Sir Gar - Cyflwr Maes Parcio Pontiets - Cafwyd Cyfarfod Safle ar 15/06/16 ynglŷn â sbwriel yn y Maes Parcio. Bydd y Cyngor Sir yn cadw golwg ar y sefyllfa.

1491 Llythyr o ddiolch oddiwrth Sadie Santos, Ysgol Carwe, ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor i wella offer Chwarae ym Marc Carwe.

1492 Society of Local Council Clerks – Association of Local Council Clerks – Lythyr yn dangos Aelodaeth.

Ceisiadau Cynllunio

1493 Dim ceisiadau cynllunio'r mis yma.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1494 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mehefin 2016.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1495 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Mehefin)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mehefin)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £97.52 (Mis Mehefin)
ch) HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Mehefin)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mehefin)
dd) Treuliau'r Syrfëwr - £35.00
e) Ffon y Syrfëwr - £30.00

f) W T Evans – Chwynladdwr - £53.92
ff) BT – Ffon y Swyddfa - £221.74
g) Alan Lewis – Lwfans y Cadeirydd - £300.00

Offer Chwarae Parc Carwe

1496 Derbyniwyd adroddiad oddiwrth y Clerc bod yr offer newydd wedi eu harchebu. Penderfynwyd gofyn am amcan bris am siglen ychwanegol i'r Plant hyn

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

1497 Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'n Cyfarfod gyda Ian Ashton o Gwendraeth Valley Railway. Awdurdodwyd y Cadeirydd,Is-gadeirydd a'r Aelodau lleol i geisio gosod amserlen i symud y mater hwn ymlaen.

1498 Cyflog y Clerc - Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ein bod yn codi cyflog y Clerc a hefyd yn ychwanegu at gydnabyddiaeth y Syrfëwr.

Cynghorwyr Ian Evans,Aled Williams a Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1499 Derbyniwyd dau gais am gymorth ariannol oddiwrth Gronfa Ffoslas. Wedi trafodaeth oherwydd diffyg cyfalaf yn y gronfa penderfynwyd derbyn y cais oddiwrth Neuadd Carwe am gymorth o £25800.00 + TAW o £5160.00 (Cyfanswm o £30960.00) – tuag at adeiladu Stordy yn y Neuadd.

Toiledau'r Meinciau

1500 Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y Gofalydd yn anhwylus ar hyn o bryd. Penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i egluro beth yw sefyllfa ein cytundeb yn y mater hwn.

Cyfansoddiad y Cyngor

1501 Penderfynwyd gosod mater Cyfansoddiad y Cyngor ynglŷn â nifer y Cynghorwyr ar agenda Cyfarfod Mis Medi

Gwyliau Mis Awst

1502 Gan na fydd Cyfarfod o'r Cyngor ym Mis Awst rhoddwyd awdurdod i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i ddelio a materion brys ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ym Mis Medi.

Materion Cynghorwyr

1503 Linda - Parc Pontiets - Matiau wrth y siglenni. Gofyn i Wicksteed am amcan bris.

1504 Alan – Biniau ailgylchu ym Meinciau yn llawn

1505 Ian - 1) Gofyn am Gyfarfod gyda Phrifathro a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun John Lloyd ynghyd a Swyddogion o'r Cyngor Sir ynglŷn â threfniadau trafnidiaeth o Garwe i'r Ysgol.
2) Bin Pontnewydd – Angen bagiau newydd a threfnu casglu'r sbwriel/

1506 Geraint – Cais am newid croesfan Pontiets (wrth y Neuadd) i groesfan 'Pelican'.

1507 Tyssul - Gofyn am amcan bris am gysgodfa'n newydd i blant uwchradd wrth Neuadd yr Eglwys,Llangyndeyrn.

1508 Aled - Angen trashio tu ôl i BrynSeilo, Carwe a hefyd glanhau'r Maes Parcio ym MrynSeilo.

1509 Heddwyn - Llwybr Treftadaeth yn dechrau dirywio - Gofyn i Martin Murray am arolwg. Cysylltu hefyd a Chyfoeth Naturiol Cymru .

1510 Wendy - Parc Gwynfryn - Cwn yn y Parc - Cysylltu â Jim Jones a'r Cyngor Sir.

Cyfarfod nesaf:- 5 o Fedi 2016 yn Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn am 7.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……